Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod
# Commercial Street
# Bargoed
# Caerffili
# CF81 8JG

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

Mae'r ysgol ym mhentref Gilfach ar gyrion tref Bargoed, yng nghanol cwm Rhymni yn awdurdod lleol Caerffili.  Mae niferoedd y disgyblion wedi lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf.  Mae bellach 141 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 17 sy'n mynychu'r feithrin yn rhan-amser.

Cyfartaledd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 20%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn yn gyfartal â'r canran cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol ym mis Ionawr 2012.  Ers tymor yr haf 2019, bu newid sylweddol yn arweinyddiaeth yr ysgol a dechreuodd y pennaeth gweithredol dros dro ar gytundeb rhan-amser ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, digonol yw'r cynnydd y mae llawer o ddisgyblion yn ei wneud yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Er bod cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion bellach yn dechrau gwella, ar y cyfan, ychydig sy'n cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae ethos gofalgar yn bodoli yn yr ysgol, lle mae disgyblion a staff yn parchu ei gilydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn barod i ddysgu. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol. Er hyn, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i annog yr holl ddisgyblion i gyflawni cystal ag y gallant. Nid oes gan yr ysgol weithdrefnau systematig ar gyfer olrhain a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae hwn yn wendid pwysig ac yn golygu nad yw athrawon yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn ddigon manwl nac yn mesur eu cynnydd yn ddigon rheolaidd.

Mae diffyg arweiniad strategol dros gyfnod estynedig yn golygu nad yw'r ddarpariaeth wedi cael effaith digon cadarnhaol ar safonau disgyblion. Er hyn, yn dilyn cefnogaeth ac arweiniad sylweddol swyddogion y consortiwm rhanbarthol dros y chwe mis diwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol yn dechrau gwella. Mewn amser byr, mae'r pennaeth gweithredol dros dro wedi dod i adnabod cryfderau cyfredol yr ysgol ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella yn dda ac mae'n cynnig arweinyddiaeth gadarn i'w symud yn ei blaen.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol i'r ysgol ac yn herio'i pherfformiad

A2 Gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

A3 Sefydlu gweithdrefnau olrhain cynnydd hylaw a sicrhau bod athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt i ymestyn y dysgu

A4 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cwrdd â'u anghenion

A5 Gwella safonau llythrennedd disgyblion

A6 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd na thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Wrth gychwyn yn y cyfnod sylfaen, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn is na'r disgwyl. Er eu bod yn deall cyfarwyddiadau syml ac yn gwrando ar gyflwyniadau eraill yn briodol, maent yn ei chael hi'n anodd defnyddio iaith briodol mewn gweithgareddau o fewn y dosbarth. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r ychydig o'r disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 2 yn rhannu eu barn gyda'u cyfoedion ac oedolion wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn siarad yn fwy hyderus gan adeiladu ar eu profiadau blaenorol yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn mynegi barn yn glir yn y ddwy iaith, yn gwrando'n ofalus yn ystod trafodaethau ac yn cynnig sylwadau perthnasol ar gyfraniadau eraill. Fodd bynnag, nid yw llawer yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o amgylch yr ysgol.

Mae mwyafrif disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau darllen Cymraeg. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o seiniau ac maent yn cymhwyso'u gwybodaeth ffonig yn addas wrth ddehongli geiriau anghyfarwydd. Fodd bynnag, mae ychydig sylweddol yn ei chael yn anodd deall yr hyn maent yn ei ddarllen ac maent yn ansicr o eirfa gyfarwydd. Ychydig sy'n darllen geiriau yn gywir a thrafod cynnwys eu llyfrau yn ddeallus. Ychydig iawn o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen sy'n darllen yn rhugl a chyda mynegiant. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae llawer yn deall sut gall atalnodi amrywio'r testun gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg. Mae'r disgyblion mwy abl yn ystyried i ba raddau mae'r testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau a, lle bo'n briodol, yn ei addasu i'w wella.

Mae medrau ysgrifennu cynnar disgyblion yn datblygu'n briodol yn y Gymraeg. Mae disgyblion iau yn ysgrifennu brawddegau syml iawn ac yn ymestyn eu geirfa i ddisgrifio anifail, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn deall bod cychwyn, canol a diwedd i stori ac yn datblygu eu defnydd o linell stori yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu am daith dinosor i'r sŵ. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n briodol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth greu taflen i ymwelwyr yn seiliedig ar Gastell Caerffili ac ymchwilio i nodweddion brwydrau enwog lleol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn drefnus mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau fel cyfarwyddiadau clir ar sut i goginio sushi. Mae'r mwyafrif yn atalnodi a pharagraffu er mwyn strwythuro a threfnu eu darnau ysgrifenedig. Fodd bynnag, er bod hyn yn dechrau datblygu, anghyson yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig. Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd, maent yn datrys problemau rhif syml yn addas. Yn ddiweddar, mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhif i ddatrys problemau yng nghyd-destun gwaith thema. Er enghraifft, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau i helpu'r dinosoriaid bach i groesi'r gors trwy adeiladu pont. Yng nghyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o strategaethau rhif ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae medrau mathemateg pen llawer ohonynt yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn defnyddio ystod eang o strategaethau priodol i ddatrys problemau ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn bwrpasol mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw sut mae'r disgyblion yn ymchwilio capasiti sawl stadiwm rygbi a'u gosod o'r mwyaf i'r lleiaf.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio apiau yn briodol i gefnogi eu dealltwriaeth o lythrennedd a rhifedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar frig y cyfnod yn rheoli teclyn electronig yn dda i ddarganfod llwybr cywir i'r camel. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymchwilio ar y we i ddarganfod gwybodaeth am faterion gwahanol, fel lleoliad cestyll Cymru ac effaith digoedwigo ar yr amgylchedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio taenlenni yn bwrpasol i ddarganfod a chymharu gwestai addas yn Siapan ar gyfer ymweld yno yn ystod adeg Cwpan Rygbi'r Byd. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn gwneud defnydd effeithiol a chreadigol o dechnoleg sgrin werdd i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol am 'Mynydd Fuji'. Fodd bynnag, nid yw ystod medrau mwyafrif o'r disgyblion ar draws yr ysgol wedi datblygu'n ddigon effeithiol i gefnogi'u gwaith yn llawn ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gyfeillgar iawn ac yn ofalgar o'i gilydd, gan drin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Maent yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os byddant yn poeni neu os bydd ganddynt broblem. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau neu wybodaeth bersonol gyda phobl eraill.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac o sut i gadw'n heini. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus wrth i lawer gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol o fewn y cwricwlwm ac mewn clybiau ar ôl ysgol. Mae pob disgybl yn cymryd rhan mewn ffitrwydd dyddiol cyn dechrau diwrnod ysgol sydd yn eu paratoi ar gyfer eu dysgu.

Mae'r cyngor ysgol yn weithredol ac yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Un gweithgaredd llwyddiannus y maent wedi ei gynnal yw ymgyrch i leihau'r defnydd o blastig mewn bocsys brechdanau i godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o'r niwed i'r amgylchedd. Yn ddiweddar, o dan arweiniad y swyddog ysgolion iach, mae'r cyngor ysgol wedi cynnal sesiwn ysgol gyfan ar bwysigrwydd hylendid dwylo er mwyn

lleihau'r perygl o ddal afiechydon drwy ledaenu germau. Fodd bynnag, nid yw rôl disgyblion wrth arwain eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau strategol wedi datblygu'n llawn. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol, fel y Dewiniaid Digidol sydd wedi dechrau cwrdd i drafod gwella safon caledwedd yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos eu bod yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi. Maent yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau ac, ar y cyfan, yn mwynhau eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r system lliwiau ar gyfer dynodi pa mor anodd yw tasg. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau addas wrth weithio'n annibynnol mewn gweithgareddau carwsél. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cydweithio'n dda wrth iddynt ddyfalbarhau wrth ddefnyddio'r sgrin werdd i greu fideo o ddelweddau Siapan fel rhan o'u 'tasg' annibynnol. Fodd bynnag, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd a chymorth gan oedolion, ac mae eu gallu i weithio yn annibynnol yn gyfyng. Nid oes gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'u cynnydd na'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. O ganlyniad, nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cyfrannu at beth y maent yn dymuno ei ddysgu.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod yn anghyson dros y tair blynedd diwethaf ac wedi gosod yr ysgol yn y chwartel isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar ac mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol ar amser.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r parch sy'n bodoli rhwng yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion yn sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu ar draws yr ysgol yn un hwylus. Mae'r gofal a roddir wrth baratoi'r arddangosfeydd lliwgar ac apelgar yn y dosbarthiadau yn rhoi bri ar ymdrechion y disgyblion ac yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn bwrpasol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn fodelau ieithyddol da, ac maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn gywir yn ystod y dydd. Er nad yw hyn eto wedi ei wreiddio, mae'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cywirdeb a rhuglder wrth iddynt sgwrsio, ynghyd â'r disgwyl iddynt gyfathrebu â'i gilydd yn y Gymraeg yn rheolaidd.

Mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau eang sydd, ar y cyfan, yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion yn briodol. Mae llawer o'r tasgau yn bodloni anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd digonol. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau'n glir gyda'r disgyblion, ac yn eu holi'n briodol i ymestyn a datblygu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae disgwyliadau llawer o'r athrawon yn rhy isel ac nid ydynt yn herio digon ar y disgyblion i ddysgu'n annibynnol nac i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Er bod staff y cyfnod sylfaen wedi datblygu ardal allanol ddeniadol i'r disgyblion ac yn rhoi sylw da i'r tasgau ffocws maent yn eu cyflwyno iddynt, nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r anghysondebau o ran lefel yr her nac ar ddatblygu digon ar eu hannibyniaeth wrth ddysgu. Yn yr un modd, er bod y tasgau a gyflwynir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ennyn diddordeb llawer ohonynt yn briodol, mae'r athrawon yn

dueddol i'w gor-arwain yn rhy aml. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, i gyflawni hyd eithaf eu gallu ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff ysgol gyfagos i ddiwygio'u cynlluniau cwricwlaidd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol. Maent hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, maes o law. Mae'r newid yn y dull o gynllunio wedi sicrhau bod y profiadau a ddarperir i'r disgyblion bellach yn fwy eang. Maent yn dechrau rhoi ystyriaeth briodol i ddiddordebau disgyblion ynghyd â chyfleoedd i'r rheini sydd ar frig yr ysgol ddatblygu eu medrau a dechrau cymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llafar disgyblion yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio cynllun penodol lle mae'r addysgu yn canolbwyntio'n benodol ar ehangu geirfa disgyblion a datblygu eu gallu i drafod yn lled lwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ysgrifennu ar draws y cwricwlwm mewn ystod eang o ffurfiau ond ni roddir digon o sylw i ddatblygu cyfleoedd penodol iddynt ysgrifennu yn estynedig nac i ddatblygu eu medrau darllen yn ddigon effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion eto'n briodol, gydag amrywiaeth o gyfleoedd addas iddynt eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn dechrau ymgorffori gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol yn eu cynlluniau ac maent yn darparu mwy o gyfleoedd addas i alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol. Fodd bynnag, gan nad oes gan yr ysgol system i olrhain cynnydd disgyblion, nid yw athrawon yn medru monitro'r dysgu yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth o fewn dosbarthiadau, nac o flwyddyn i flwyddyn.

Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn briodol ac yn cynnig sylwadau iddynt ar eu hymdrechion. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol i alluogi disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith ac, ar y cyfan, nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth o weithdrefnau asesu yn ddigon effeithiol i lywio'r profiadau dysgu. Yn ddiweddar iawn, mae'r athrawon wedi dechrau darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith ysgrifenedig, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn briodol ac mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol, a'u diwylliant. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu a ddarperir i ddisgyblion o fewn y dosbarthiadau yn dda trwy drefnu ymweliadau iddynt â mannau diddorol fel glofa a thai hanesyddol lleol. Mae athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fynd ar deithiau preswyl i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg ynghyd â'u gwybodaeth am Gymru. Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion ymhellach trwy wahodd ymwelwyr fel y gofalwr, a oedd yn gyn löwr, i'r ysgol i rannu ei brofiadau gyda nhw, tra'u bod yn dysgu am hanes glofaol y pentref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys

Mae'r staff yn creu ethos gofalgar a chefnogol mewn amgylchedd diogel i'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n hyderus i rannu eu

teimladau ynghyd â'r hyn sy'n peri gofid iddynt gyda'r staff a'u cyfoedion. Mae ffocws pwrpasol ac effeithiol ar gefnogi disgyblion a hyrwyddo lles rheini sydd ag anghenion emosiynol, corfforol a chymdeithasol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio arbenigwr lles allanol i gynnig ystod o grwpiau ymyrraeth i'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster rheoli eu teimladau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae staff yn gweithio'n briodol gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys athrawes ymgynghorol anghenion addysgol arbennig, swyddog ymddygiad a'r seicolegwyr addysg i ddarparu cyngor a chymorth buddiol ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysg unigol disgyblion bob amser yn disgrifio'n ddigon clir yr hyn sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion penodol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn gallu gwerthuso cynnydd disgyblion tuag at gyflawni'r camau yn y cynlluniau hyn yn drylwyr, ac nid yw athrawon yn gwybod i ba raddau mae ymyraethau a chymorth ychwanegol yn gweithio'n llwyddiannus. Mae hyn yn wendid pwysig yn y ddarpariaeth.

O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu perthynas waith dda gyda rhieni, gan rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw trwy wefannau cymdeithasol a chylchlythyron electronig. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad y rhieni yn addysg eu plant. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig mewn trafodaethau, ac yn rhoi gwybodaeth reolaidd iddynt am eu cyflawniad. Mae'n darparu gwybodaeth addas iddynt am sut y gallant gynorthwyo eu plentyn gartref; er enghraifft, mae staff yn cyfeirio teuluoedd bregus at dîm ymyrraeth teulu'r awdurdod lleol am gyngor a chyfarwyddyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a lles y disgyblion hyn.

Un o brif wendidau'r ysgol yw'r ffaith nad oes ganddi weithdrefnau systematig ar gyfer olrhain a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae hyn yn wendid pwysig ac yn golygu nad yw athrawon yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn ddigon manwl nac yn mesur eu cynnydd yn ddigon rheolaidd. Yn ychwanegol, nid oes cyfleoedd penodol i staff drafod cynnydd disgyblion ar y cyd, na myfyrio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o berfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion i'w galluogi i ddeall i ba raddau mae mentrau newydd yn arwain at welliannau mewn deilliannau. Er bod athrawon wedi dechrau adnabod disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol, nid ydynt yn cynnig darpariaeth ychwanegol iddynt i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r ysgol wedi dechrau trefnu grwpiau o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, mae athrawon yn cyd-gynllunio gyda'r arweinwyr digidol wrth iddynt wella safon caledwedd TGCh yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu'n annibynnol ar benderfyniadau ynglŷn â'r ysgol, yn arbennig mewn perthynas â'r hyn y maent am ei ddysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried eu hiechyd a'u lles trwy weithgareddau corfforol rheolaidd gan gynnwys y 'filltir ddyddiol'. Mae ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys rygbi a phêl-rwyd.

Caiff agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol trwy ddarparu cyfleoedd iddynt astudio credoau'r byd a chyfnodau o gyd-addoli rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan ar y cynhaeaf ac yn casglu cyflenwadau i'r banc bwyd lleol. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol i ddatblygu synnwyr disgyblion o'u cymuned; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn gweithio gyda'r eglwys leol i gynnal caffi i'r henoed.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Ar y cyfan, mae arweinwyr wedi ymateb yn rhy araf i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith digon cadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae diffyg arweiniad strategol dros gyfnod estynedig yn golygu nad yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â materion pwysig, fel sefydlu prosesau olrhain cynnydd pwrpasol. Er hyn, yn dilyn cefnogaeth ac arweiniad sylweddol y Consortiwm dros y chwe mis diwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol yn dechrau gwella. Mewn amser byr, mae'r pennaeth gweithredol dros dro wedi dod i adnabod yr ysgol yn dda ac mae'n cynnig arweinyddiaeth gadarn wrth symud yr ysgol yn ei blaen. Mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella. Mae'n gweithio'n frwdfrydig gyda'r llywodraethwyr a'r staff er mwyn gosod gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig a'r wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae tîm o athrawon a staff cynorthwyol yn cydweithio'n dda yn yr ysgol, ond mae diffyg arweinyddiaeth dros gyfnod estynedig wedi golygu nad ydynt wedi cael dylanwad digon cadarn ar wella safonau. Serch hynny, un o brif nodau'r pennaeth gweithredol yw datblygu staff yr ysgol i fod yn ymarferwyr blaenllaw a gwybodus. Mae wedi dechrau gweithio i wella dulliau rheoli perfformiad yr ysgol ac yn rhoi datblygiad proffesiynol y staff yn ganolog i'r gwaith o wella'r ysgol. Er bod y gweithgareddau hyn yn newydd, mae'r pennaeth wedi sefydlu trefn fwy pwrpasol nag oedd yn bodoli eisoes, ac mae'r staff yn hyderus y bydd gwell cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion perthnasol. Mae llawer ohonynt wedi cynnal teithiau dysgu er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Er hyn, ar y cyfan, mae gwybodaeth y corff llywodraethol ynglŷn â safonau ac addysgu yn gyfyng. Er iddynt gychwyn myfyrio ynglŷn â'r meysydd sydd angen eu gwella, nid yw'r llywodraethwyr yn herio digon ar berfformiad yr ysgol. Felly, cyfyng yw eu gallu i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Nid ydynt wedi cymryd digon o gyfrifoldeb dros sicrhau bod materion pwysig yn cael eu gwella, er enghraifft o ran cryfhau ansawdd arweinyddiaeth yr ysgol a gosod cyfeiriad strategol priodol dros gyfnod.

Er bod cynlluniau gwella'r ysgol wedi bod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau defnyddiol am y ddwy flynedd ddiwethaf, nid ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth ddigon diagnostig o ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Nid oes prosesau hunanwerthuso digon cadarn wedi eu defnyddio dros amser. O ganlyniad, adnabyddiaeth arwynebol o brif gryfderau a meysydd i'w gwella sydd gan arweinwyr ac nid ydynt yn adnabod y meysydd pwysicaf y mae'r ysgol angen eu blaenoriaethu. Effaith hyn yw nad oes gan yr ysgol hanes ddigon da o wneud gwelliannau angenrheidiol, ac mae, er enghraifft, argymhellion yr arolygiad hwn yn cynnwys agweddau sy'n debyg i argymhellion arolygiad blaenorol Estyn. Yn ddiweddar iawn,

mae’r pennaeth gweithredol wedi cychwyn cyflwyno diwylliant o hunanwerthuso ar sail dadansoddiad o dystiolaeth uniongyrchol, fel craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a theithiau dysgu.  Mae hi’n meithrin cysylltiadau mwy amlwg rhwng prosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella’r ysgol.  Er bod y camau hyn yn rhai diweddar, mae trefniadau gwella cadarn yn barod yn eu lle, er enghraifft i gryfhau’r ddarpariaeth mathemateg a rhifedd, llythrennedd a’r fframwaith cymhwysedd digidol.  Ond mae’n rhy fuan iddynt gael digon o ddylanwad ar safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r arweinwyr yn cadw golwg priodol ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n bwrpasol â thargedau a chynlluniau'r ysgol.  Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da ac mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu amgylchedd dysgu deniadol.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r grant datblygu disgyblion er mwyn gwella medrau’r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac i hybu eu presenoldeb.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2019